**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-CS-2397/71

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

20 Gorffennaf 2017

Annwyl Lynne

Yn ystod y drafodaeth ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch ei ymchwiliad i Ddarpariaeth Eiriolaeth Statudol ar 29 Mawrth 2017, un o'r argymhellion y cytunwyd arnynt oedd y byddwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd y dull cenedlaethol i'r Pwyllgor.

Ar 13 Mehefin, gwnaeth Llywodraeth Cymru ailymgynnull y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol lle cafodd yr aelodau ddiweddariad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud gan awdurdodau lleol dros y misoedd diwethaf.

Rwy'n falch o adrodd bod pob un o'r chwe rhanbarth wedi ymrwymo'n llawn i weithredu'r dull cenedlaethol yn llawn ac mae'r holl drefniadau ar waith i alluogi hyn. Cadarnhawyd hyn mewn llythyr a gefais gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ar 22 Mehefin. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i amgáu, ac mae'n amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i'r gwasanaethau cydweithredol rhanbarthol.

Fel yr ydych yn ymwybodol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu hyd at £550,000 i'r rhanbarthau i sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ariannu'n llawn. Mae pob rhanbarth wedi cael ei lythyr grant, ac wrth fonitro'r grant yn rheolaidd, bydd modd i Lywodraeth Cymru gadw llygad ar y gwariant am y ddwy flynedd gyntaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r dull hefyd yn cynnwys y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Eirioli. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y Fframwaith fel y cytunwyd yn y Pwyllgor, a daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Mehefin. Mae fy swyddogion wrthi'n ystyried yr ymatebion a byddant yn diweddaru'r fframwaith i adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd.

Gan fod Cymru yn rhan flaenllaw o’r agenda eirioli yn y DU, cytunwyd yng nghyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol bod angen cydnabod y daith dros 4 blynedd i gyrraedd y pwynt hwn gyda'r Dull Cenedlaethol. Rwy'n cytuno'n llwyr â hyn, ac mae fy swyddogion yn ystyried yr opsiynau ar gyfer cynnal lansiad swyddogol yn y Senedd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Cytunodd y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol i adolygu cynnydd y dull cenedlaethol yn yr hydref. Byddaf yn rhoi diweddariad pellach i chi ar ôl i'r Grŵp gyfarfod.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children